# Adroddiad ar

# The Oak Tree Centre

**The Oak Tree Centre**
**Ffordd Las**
**Y Rhyl**
**LL18 2DY**

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2022**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**ac**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Chanolfan y Dderwen

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | The Oak Tree Centre |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal dydd llawn |
| Person(au) cofrestredig | |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Dawn Anderson |
| Person â chyfrifoldeb | Dawn Anderson<br>Gemma Jones |
| Nifer y lleoedd | 77 |
| Ystod oedran y plant | 8 wythnos – 12 mlwydd oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 23 |
| Nifer y plant sy'n derbyn cyllid ar gyfer addysg gynnar | 23 |
| Diwrnodau/amseroedd agor | Dydd Llun – dydd Gwener 8am – 6pm |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Ydy |
| Iaith y lleoliad | Saesneg |
| A yw'r lleoliad hwn yn gweithredu'r Cynnig Gofal Plant? | Ydy |
| Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg | Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg ac mae'n bwriadu dod yn wasanaeth dwyieithog neu mae'n dangos ymdrech sylweddol i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a'i diwylliant. |
| Dyddiad yr arolygiad diwethaf gan AGC | 14 Mehefin 2018 |
| Dyddiad yr arolygiad diwethaf gan Estyn | Mai 2014 |
| Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn | 28/06/2022 |
| Nid oes yr un o'r plant yn dod o aelwydydd Cymraeg eu hiaith. | |

## Diffyg cydymffurfio

Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn.

## Argymhellion

A1 Sicrhau cysondeb ar draws y lleoliad o ran annibyniaeth y plant yn ystod amser bwyd

A2 Darparu mwy o gyfleoedd i blant ddatblygu sgiliau gwrando a siarad Cymraeg

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Llesiant:**

Mae bron pob plentyn yn cyrraedd yn teimlo’n hapus, yn gynhyrfus ac yn barod i chwarae. Maent yn ymgysylltu'n dda â'r gweithgareddau, yn dangos gwytnwch, ac yn rhyngweithio'n dda gyda'r ymarferwyr a chydag ymwelwyr. Mae'r rhan fwyaf o blant yn teimlo'n hyderus i fynegi eu teimladau a gwneud penderfyniadau wrth ddewis adnoddau a gweithgareddau. Er enghraifft, dewisodd plentyn yn ystafell y plant bach adeiladu cestyll tywod. Mae bron bob un o’r plant yn fodlon ac yn mynegi eu mwynhad trwy wenu a chwerthin. Mae’r rhan fwyaf o blant yn rhyngweithio’n hyderus â’i gilydd a chyda'r ymarferwyr. Mae'r plant yn mynegi eu hunain yn dda ar draws y lleoliad ac yn gwybod y bydd yr ymarferwyr yn ystyried eu dymuniadau. Er enghraifft, yn ystafell y babanod, gofynnodd y plant am swigod ac aeth ymarferydd i'w hôl.

Mae bron bob plentyn yn frwdfrydig ac yn egnïol. Maent yn gwneud penderfyniadau annibynnol am weithgareddau ac yn dewis adnoddau sydd ar gael iddynt. Yn ystod amser chwarae rhydd, mae'r plant yn dewis chwarae mewn gwahanol ardaloedd, gan symud yn hyderus o un gweithgaredd i'r llall. Maent yn dilyn eu diddordebau ac yn dangos sgiliau dychmygu. Er enghraifft, gwthiodd grŵp o blant bram doli gan ddweud wrth ymarferwr eu bod yn mynd ar eu gwyliau i brynu hufen iâ.

Mae’r rhan fwyaf o blant yn hapus, wedi ymlacio, ac yn teimlo'n gyfforddus gyda’u gofalwyr. Maent yn mynd at yr ymarferwyr pan fydd angen cysur neu gymorth arnynt. Er enghraifft, mae'r plant yn gofyn am gymorth gan ymarferydd i olchi eu dwylo. Mae gan y plant lais yn y gwasanaeth. Gofynnodd y plant i'r ardal chwarae meddal gael ei gwneud yn fwy gan nad oedd y man awyr agored yn hygyrch oherwydd gwaith adeiladu.

Mae bron bob plentyn yn dechrau ffurfio cyfeillgarwch yn briodol ac yn dangos eu bod yn gofalu a phryderu am ei gilydd. Er enghraifft, wrth chwarae rôl yn yr awyr agored, roedd y plant yn ystafell y plant bach yn annog ei gilydd i stopio eu ceir wrth y groesfan sebra er mwyn i’w ffrindiau gael croesi’r ffordd. Mae pob plentyn yn ymddwyn yn dda ac yn cynnal eu sylw yn briodol.

Mae'r plant yn cael cyfleoedd i chwarae'n rhydd a chymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n cael eu harwain gan oedolion sy'n briodol i'w hoedran a'u datblygiad. Mae'r plant yn ymateb yn dda os ydynt yn cael eu canmol am eu cyflawniadau. Maent yn gweld bod eu gwaith yn cael ei werthfawrogi gan ei fod yn cael ei arddangos ar y waliau, sy'n rhoi ymdeimlad o berthyn iddynt. Mae’r rhan fwyaf o blant yn cael defnyddio'r amgylchedd yn annibynnol. Maent yn datblygu sgiliau gofal personol priodol. Er enghraifft, maent yn golchi eu dwylo ac yn defnyddio'r toiled yn annibynnol.

Fodd bynnag, nid yw'r plant bob amser yn datblygu eu hannibyniaeth yn ddigon da yn ystod amser bwyd ar draws y feithrinfa.

**Dysgu (dim ond yn berthnasol i blant tair neu bedair oed nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):**

Mae bron bob plentyn yn gwneud cynnydd cryf o’u mannau cychwyn unigol ac yn dysgu ystod dda/briodol o sgiliau yn ystod eu cyfnod yn y lleoliad. Maent yn datblygu sgiliau corfforol yn gadarn, gan wneud defnydd effeithiol o offer dringo yn yr ardal awyr agored dros dro, a rhuthro o gwmpas gyda'u ffrindiau wrth wthio pramiau. Maent yn datblygu sgiliau echddygol manwl yn dda, er enghraifft, trwy osod brigau a moch coed mewn clai yn ofalus i wneud darn o gelf. Mae'r sgiliau hyn yn eu helpu i ddal creonau, brwshys paent a phensiliau wrth iddynt ddechrau gwneud marciau, gan ddatblygu sgiliau ysgrifennu cynnar yn llwyddiannus.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu sgiliau gwrando a siarad yn dda. Maent yn gwrando ar yr ymarferwyr er mwyn dilyn cyfarwyddiadau ac yn ymateb i gwestiynau a heriau wrth iddynt chwarae. Er enghraifft, mae'r plant yn egluro eu bod yn gwneud cacennau bach yn y gegin fwd. Mae llawer yn dechrau sgwrsio gyda'u ffrindiau wrth iddynt chwarae. Mae bron bob plentyn yn dechrau datblygu diddordeb mewn darllen, er enghraifft, trwy ddewis eistedd ochr yn ochr ag ymarferydd i wrando ar stori yn y gornel ddarllen a dewis eu llyfr eu hunain i gael golwg drwyddo. Mae llawer o'r plant yn dechrau datblygu dealltwriaeth addas o ychydig o eiriau ac ymadroddion Cymraeg. Er enghraifft, maent yn ymateb i'r gofrestr yn Gymraeg ac yn canu ychydig o ganeuon, megis ffarwelio â'i gilydd ar ddiwedd sesiwn.

Ar y cyfan, mae'r plant yn datblygu sgiliau rhifedd yn llwyddiannus. Maent yn adnabod gwahanol siapiau dau ddimensiwn, yn dechrau eu didoli'n gywir, ac yn dechrau trefnu gwrthrychau o'r lleiaf i'r mwyaf. Mae llawer yn dangos diddordeb mewn rhifau trwy chwarae â chyfrifiannell a gwneud marciau ar bapur. Mae ychydig o'r rhai sydd wedi datblygu ymhellach yn eu cyfnod datblygu yn dechrau llunio rhifau â'u bys ar sgrin ryngweithiol yn llwyddiannus.

Mae bron bob plentyn yn datblygu sgiliau creadigol yn dda, yn enwedig pan gânt gyfle i ymateb yn rhydd. Maent yn tynnu lluniau ac yn peintio am eu profiadau eu hunain megis 'fy ngharafán' neu 'bwced a rhaw’. Mae'r rhan fwyaf o blant yn mwynhau gwisgo i fyny yn ardal y tŷ bach, er enghraifft, trwy esgus golchi dillad, ac mae llawer yn arbrofi gyda cherddoriaeth gan ddefnyddio offerynnau taro. Ar y cyfan, mae'r plant yn dechrau datblygu ystod addas o sgiliau digidol, er enghraifft, wrth gael sgwrs ddychmygol ar y ffôn wrth chwarae rôl, a defnyddio camera digidol i dynnu lluniau o’u ffrindiau.

**Gofal a datblygiad:**

Mae gan yr ymarferwyr ddealltwriaeth dda o sut i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn dilyn systemau a gweithdrefnau cadarn i sicrhau iechyd a diogelwch y plant ac mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o'u cyfrifoldebau. Mae'r ymarferwyr yn dilyn gweithdrefnau glanhau effeithiol yn briodol i sicrhau amgylchedd hylan i'r plant ac i leihau croes-halogiad. Er enghraifft, mae'r ymarferwyr yn annog y plant i olchi eu dwylo, cyn ac ar ôl byrbryd a gweithgareddau chwarae blêr. Mae'r ymarferwyr yn cynllunio ystod fuddiol o gyfleoedd ar gyfer chwarae corfforol ac ymarfer corff i wella iechyd a llesiant y plant. Er enghraifft, mae'r plant yn cael mynediad i awyr iach bob dydd wrth chwarae yn yr ardal awyr agored.

Mae'r ymarferwyr yn deall eu cyfrifoldeb i ddiogelu'r plant rhag niwed, gan gynnwys sut i ymateb i bryderon amddiffyn plant. Mae trefniadau’r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni’r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae pob ymarferydd wedi mynychu hyfforddiant diogelu, ac mae gan bob un y cymwysterau cymorth cyntaf perthnasol. Mae'r holl ymarferwyr yn darparu gofal a chymorth da i'r plant. Mae gan y lleoliad bolisi ymddygiad effeithiol ac mae'r holl ymarferwyr yn ei weithredu'n dda. Maent yn canmol ymddygiad a chyflawniadau da ac yn cynnig anogaeth pan fydd y plant yn ceisio gwneud pethau drostynt eu hunain. Maent yn gosod esiampl, gan hyrwyddo ac ysgogi cwrteisi.

Mae'r holl ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda ac mae ganddynt ddealltwriaeth glir o'u hanghenion, galluoedd a hoffterau unigol. Maent yn darparu amgylchedd magwrol a gofalgar lle mae anghenion y plant yn dod yn gyntaf. Mae'r ymarferwyr yn defnyddio gwybodaeth a gesglir cyn i'r plant ddechrau yn y lleoliad i gynllunio sut i ofalu am bob plentyn yn effeithiol. Mae'r holl ymarferwyr yn darparu cyfleoedd dysgu a datblygu da i'r plant. Maent yn arsylwi chwarae a dysgu'r plant yn rheolaidd, sy'n rhoi gwybod iddynt sut mae'r plant yn datblygu ac yn llywio'r camau nesaf yn eu datblygiad. Mae gan y lleoliad weithdrefnau effeithiol i gefnogi'r plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol a nodwyd a'r rhai sydd ag anghenion sy’n dod i'r amlwg, ac mae'r awdurdod lleol yn cynnig cymorth pan fo angen. Mae'r ymarferwyr yn gweithredu'n ddiwyd ar gyngor asiantaethau arbenigol, ochr yn ochr â'r wybodaeth a gânt gan rieni, er budd y plant.

Mae’r ymarferwyr yn darparu cyfleoedd effeithiol i blant ddatblygu dealltwriaeth o fod yn Gymry a’r byd ehangach. O ganlyniad, maent yn dysgu sut i drin pobl o bob diwylliant gyda pharch a goddefgarwch. Er enghraifft, maent yn dathlu arferion Ramadan a'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd, yn ogystal â Dydd Gŵyl Dewi, Dydd Santes Dwynwen a'r Nadolig.

**Addysgu ac asesu (dim ond yn berthnasol i blant tair neu bedair oed nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):**

Mae'r holl ymarferwyr yn ffurfio cydberthnasau effeithiol gyda'r plant, gan ddangos y gofal a'r gefnogaeth sy'n rhoi sylfaen gadarn ar gyfer dysgu. Maent yn cynllunio gweithgareddau difyr sy'n targedu sgiliau penodol, yn ogystal â darparu mynediad agored i ystod eang o gyfleoedd dysgu ysgogol dan do. Maent hefyd yn sicrhau bod y plant yn cael mynediad gwerthfawr i adnoddau yn yr ardal awyr agored dros dro sy'n cael ei defnyddio tra bo gwaith adeiladu yn mynd rhagddo ar y safle.

Mae'r ymarferwyr yn cydnabod pwysigrwydd darparu cyfnodau estynedig o chwarae di-dor i'r plant. Maent yn ymyrryd yn sensitif i fanteisio ar gyfleoedd dysgu sy'n codi'n naturiol. Er enghraifft, pan fydd plentyn yn dechrau chwarae â thâp mesur, mae'r ymarferydd yn cyfrif y rhifau gydag ef, ac yn awgrymu eu bod yn mesur taldra'r plentyn. Mae'r ymarferwyr yn cyfoethogi gwahanol ardaloedd yn y dosbarth er mwyn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth y plant yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn gosod gwrthrychau pren a metel yn y tywod ac yn herio'r plant i ddod o hyd i wrthrychau metel gyda datgelydd metel. Maent yn darparu cyfleoedd effeithiol i'r plant ddatblygu sgiliau llythrennedd trwy gyflwyno geirfa newydd wrth iddynt sgwrsio â phlant yn ystod chwarae, a thrwy ddarllen storïau iddynt pan fyddant yn penderfynu ymweld â’r gornel ddarllen. Mae'r ymarferwyr yn dechrau sylwi ar gyfleoedd i

gyflwyno geirfa Gymraeg yn ystod sesiynau. Fodd bynnag, annatblygedig yw'r agwedd hon o'r ddarpariaeth ar hyn o bryd.

Mae'r ymarferwyr yn darparu cyfleoedd gwerth chweil i blant ddysgu am ddiwylliant a threftadaeth Cymru. Er enghraifft, maent yn annog y plant i wisgo i fyny ar Ddydd Gŵyl Dewi ac yn darparu cyfleoedd iddynt wneud cardiau i fynd adref â nhw a’u rhoi i anwyliaid ar Ddydd Santes Dwynwen. Caiff y plant gyfleoedd gwerthfawr i ymweld â lleoedd yn eu cymuned, er enghraifft, wrth ddysgu am wahanol ffrwythau yn yr archfarchnad leol. Maent hefyd yn darparu cyfleoedd buddiol i blant ddysgu am ein byd amrywiol. Er enghraifft, mae'r plant yn gwneud darnau o gelf i godi ymwybyddiaeth o Ramadan a Diwali. Maent yn darparu cyfleoedd i'r plant ddatblygu ymdeimlad o ryfeddod at y byd naturiol, er enghraifft, wrth wylio malwod tir Affrica mewn tanc yn y lleoliad.

Mae'r ymarferwyr yn cofnodi cynnydd y plant yn ystod eu cyfnod yn y lleoliad yn ddiwyd. Gwnânt asesiadau cywir i gofnodi mannau cychwyn y plant, ac maent yn cofnodi eu cynnydd wrth iddynt ddysgu sgiliau newydd, gan rannu'r wybodaeth ar ddiwedd y flwyddyn gyda'r ysgol a'r rhieni. Maent yn arsylwi wrth i'r plant ymgymryd â thasgau ac yn addasu'r ddarpariaeth fel y bo'n briodol. Er enghraifft, fe wnaethant gynllunio sesiynau ar gyfrif i bump ar ôl sylwi bod grŵp o blant yn cymysgu’r rhifau.

**Yr amgylchedd:**

Mae'r adeilad yn ddiogel ac mae'r plant yn elwa o gael digon o le i chwarae, dysgu, bwyta a chysgu. Mae gan y lleoliad systemau cadarn i sicrhau diogelwch y plant. Ni all ymwelwyr gael mynediad i'r lleoliad oni bai fod aelod o staff yn caniatáu hynny, ac mae pob ymwelydd yn llofnodi wrth gyrraedd yr adeilad ac wrth ymadael. Mae'r ymarferwyr yn dangos ymwybyddiaeth dda o'r materion diogelwch perthnasol, megis yr asesiadau risg dyddiol o'r amgylcheddau dan do ac awyr agored. Ar y cyfan, mae'r safle'n lân ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda ac mae'r holl ymarferwyr yn dilyn gweithdrefnau hylendid effeithiol, er enghraifft, sychu byrddau cyn gweini bwyd a gwisgo cyfarpar diogelu priodol fel ffedogau, menig a rhwydi gwallt tafladwy. Mae'r toiledau a'r cyfleusterau newid cewynnau yn lân, ac mae'r ymarferwyr yn dilyn canllawiau i hyrwyddo preifatrwydd ac urddas y plant. Mae'r adeilad yn groesawgar, yn gynnes ac yn gyfforddus ac yn darparu amgylchedd ysgogol i'r plant chwarae a symud yn rhydd.

Mae'r ymarferwyr yn hybu llesiant y plant trwy ddarparu mynediad i ddetholiad priodol o deganau ac offer yn y brif ystafell, yn yr ystafell synhwyraidd ac yn yr ardaloedd awyr agored. Mae gan bob plentyn fynediad i ystod eang o deganau ac adnoddau sy'n briodol i'w hoedran a'u datblygiad y tu mewn. Mae'r ardal awyr agored sydd ar gael i'r plant ar hyn o bryd yn gyfyngedig oherwydd y gwaith adeiladu sy'n mynd rhagddo i ymestyn y ganolfan blant lle maent wedi'u lleoli. Fodd bynnag, mae'r arweinwyr wedi sicrhau bod plant o bob oed yn gallu cael mynediad i chwarae awyr agored yn ddyddiol trwy ddefnyddio iard chwarae’r feithrinfa ar safle’r ysgol. Mae'r ardal awyr agored sydd ar gael i'r plant yn ysgogol ac yn annog dysgu corfforol megis chwarae blêr a gweithgareddau corfforol yn dda. Mae'r holl adnoddau'n lân ac yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda. Mae gan y plant fynediad i ddodrefn maint plant, megis byrddau a chadeiriau, yn ogystal ag offer eraill fel pyllau tywod, islau peintio a fframiau dringo ar lefelau isel er mwyn hybu eu datblygiad corfforol a'u sgiliau annibyniaeth yn llwyddiannus. Mae ystod dda o deganau ac offer i hybu

ymwybyddiaeth ddiwylliannol, gan gynnwys llyfrau ac enghreifftiau o ddathliadau diwylliannol. Mae'r plant yn cael cyfleoedd i ofalu am bethau byw trwy ofalu am bysgod aur y lleoliad.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth:**

Mae'r arweinwyr yn darparu arweinyddiaeth effeithiol ar bob lefel, sydd yn ei thro yn cael effaith gadarnhaol ar y cynnydd a wna plant yn ystod eu cyfnod yn y lleoliad. Maent yn creu ac yn cynnal ymdeimlad clir o waith tîm ac yn sicrhau bod pob aelod o staff yn cael ei werthfawrogi. Mae'r arweinwyr yn hyrwyddo llesiant yr ymarferwyr trwy ddathlu eu cyflawniadau, er enghraifft, trwy arddangos negeseuon cadarnhaol a dderbynnir gan rieni yn amlwg. Maent yn hyrwyddo diwylliant cryf o ddiogelu yn llwyddiannus fel bod pob aelod o staff wedi ymrwymo i sicrhau llesiant y plant.

Mae gan y lleoliad ystod addas o bolisïau sy'n dylanwadu'n effeithiol ar waith bob dydd yr ymarferwyr. Mae'r arweinwyr yn gwerthuso pob agwedd o waith y lleoliad yn rheolaidd ac yn ystyried y cyngor a dderbynnir gan bartneriaid cymorth. Yn yr achosion cryfaf, maent yn gweithredu'n bendant i wella agweddau o'r ddarpariaeth yng ngoleuni'r broses werthuso. Er enghraifft, maent wedi cyflwyno mwy o offer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) ar ôl nodi nad oedd sgiliau digidol y plant wedi'u datblygu'n ddigonol. Mae'r arweinwyr yn goruchwylio ac arsylwi gwaith ymarferwyr unigol yn gadarn a rheolaidd, gan roi targedau gwerthfawr iddynt. Maent yn sicrhau bod yr holl ymarferwyr yn cael mynediad at gyfleoedd dysgu proffesiynol buddiol. Er enghraifft, mae'r ymarferwyr bellach yn darparu mwy o gyfleoedd i'r plant chwarae am gyfnodau estynedig wedi iddynt dderbyn hyfforddiant am egwyddorion y Cwricwlwm i Gymru. Yn ddiweddar iawn, mae'r arweinwyr wedi sefydlu cysylltiadau addas er mwyn datblygu'r ddarpariaeth Gymraeg yn y lleoliad.

Mae'r arweinwyr yn rheoli'r adnoddau yn dda. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod digon o ymarferwyr â chymwysterau addas i gefnogi'r plant ym mhob rhan o'r lleoliad. Maent yn dyrannu a blaenoriaethu gwariant yn briodol, gan gynnwys gwneud defnydd effeithiol o grantiau ychwanegol. Er enghraifft, mae'r arweinwyr wedi prynu adnoddau newydd i gyfoethogi'r ardal awyr agored. Maent yn rheoli'r amgylchedd ffisegol yn dda, gan gynnwys gweithio gyda phartneriaid megis yr ysgol gynradd leol i leihau'r amhariad ar ddysgu'r plant tra bo'r gwaith adeiladu'n mynd rhagddo ar y safle.

Mae'r arweinwyr yn datblygu cysylltiadau buddiol ag ystod o bartneriaid allanol. Maent yn gweithio'n agos gyda'r pennaeth monitro ag athro cymorth o'r ysgol leol i ddatblygu systemau newydd, fel cynllunio ac asesu, a rhannu arferion gyda darparwyr eraill. Maent yn cynnal cysylltiadau cynhyrchiol â rhieni, gan rannu gwybodaeth trwy ap a chylchlythyr. Maent yn cymryd rhan mewn mentrau lleol a chenedlaethol megis rhaglen i hyrwyddo hylendid y geg a gyda sefydliad sy'n cyfoethogi'r ddarpariaeth yn y clwb ar ôl yr ysgol.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan y lleoliad ac ar wefannau AGC ac Estyn (http://arolygiaethgofal.cymru) (www.estyn.llyw.cymru).

© Hawlfraint y Goron 2022: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 31/8/2022